**Jeremy Miles AC/AM**
**Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog Brexit**
**Counsel General and Brexit Minister**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA-L-/LG/0047/19

Mick Antoniw AC
Cadeirydd,
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Mick.Antoniw@cynulliad.cymru

18 Chwefror 2019

Annwyl Mick,

Credaf ei bod yn berthnasol imi amlinellu'r dull y mae Gweinidogion Cymru wedi penderfynu ei gymryd mewn ymateb i Lywodraeth y DU yn gosod Rheoliadau Cymorth Gwladol (Amaethyddiaeth a Physgodfeydd) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019 gerbron Senedd y DU ar 12 Chwefror 2019.

Mae Rheoliadau 2019, ynghyd â Rheoliadau Cymorth Gwladol (Ymadael â'r UE) 2019 a osodwyd gerbron Senedd y DU ar 29 Ionawr, yn troi rheoliadau yr Esmptiad Bloc Cyffredinol a De minimis presennol yn gyfraith ddomestig. Mae hyn i sicrhau bod y cyllid ar gyfer amaethyddiaeth a physgodfeydd yn gallu parhau. Mae Strategaeth yr Adran Busnes, Ynni a Diwydiant yn sicrhau bod y Rheoliad Esemptiad Bloc Cyffredinol a'r Rheoliad De Minimis Diwydiannol yn parhau.

Mae'r Rheoliadau a'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth atodol yn gam pwysig o ran sicrhau cysondeb rhwng deddfwriaeth y DU a'r UE ar gymorth gwladol. Mae Gweinidogion Cymru yn falch y bydd rheoliadau yn ennyn hyder partneriaid yr UE, a chadw'r hyder hwnnw, drwy helpu i sicrhau, a hynny mewn modd deinamig, bod cysondeb â rheolau Cymorth gwladol yr UE a bod modd cysoni'n effeithiol ar draws y DU. Yn ei dro, bydd hyn yn hollbwysig ar gyfer ein perthynas â'r Undeb Ewropeaidd yn y dyfodol.

Safbwynt Llywodraeth Cymru yw bod Cymorth gwladol yn fater sydd wedi'i ddatganoli, ac nid yn fater a gedwir yn ôl o dan unrhyw un o benawdau'r Atodlen Materion a Gedwir yn Ôl i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Fodd bynnag, nid yw Llywodraeth y DU o'r un farn (fel y nodwyd yn y Cytundeb Rhynglywodraethol) ac felly nid yw wedi gofyn am gydsyniad Gweinidogion Cymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i Lywodraeth y DU am eglurhad o'i safbwynt cyfreithiol ond ni chafwyd unrhyw ymateb.

Mae Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig wedi ysgrifennu at yr Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol ar gyfer Bwyd a Lles Anifeiliaid i ailbwysleisio nad yw'n dderbyniol i Weinidogion Llywodraeth y DU wneud penderfyniadau unochrog ar faterion sy'n effeithio'n uniongyrchol ar feysydd o fewn cymhwysedd datganoledig. Gan ddeall y pwysigrwydd a'r cyfyngiadau amser o ran sicrhau bod y rheoliadau hyn yn cael eu gosod ac mewn grym erbyn yr amser y bydd y DU yn ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, mae'n bwysig

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
PSCGBM@gov.wales/YPCCGB@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

bod cyfundrefn hirdymor y DU ar gymorth gwladol yn un sydd wedi'i datblygu, ei haddasu a’i pherchenogi gan Lywodraeth y DU a'r Gweinyddiaethau Datganoledig ar y cyd.

Mae'r trafodaethau yn parhau rhwng swyddogion Defra a Llywodraeth Cymru i ystyried sut y byddant yn cael eu gweithredu. Er hyn, mae Gweinidogion Cymru yn siomedig nad yw'r rheoliadau fel y'u gosodwyd yn darparu ar gyfer gwneud penderfyniadau drwy gydsyniad ar y cyd ac nid ydynt yn darparu ar gyfer cyfundrefn cymorth gwladol sydd wir yn berchen i bedair Llywodraeth y DU.

Mae'n bosibl i Lywodraeth Cymru gytuno â Llywodraeth y DU bod cael cyfundrefn cymorth gwladol sy'n gweithio ar draws y DU yn ddymunol, ac yn angenrheidiol i sicrhau mynediad llawn a dirwystr i'r farchnad sengl, a hynny heb gytuno i ildio pob rheolaeth statudol dros reolau cymorth gwladol o hyn ymlaen i Lywodraeth y DU. Yn sgil hynny, nid yw Gweinidogion Cymru yn cytuno rhoi cydsyniad unochrog ar gyfer yr Offeryn Statudol hwn.

Yn gywir



**Jeremy Miles AC**
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog Brexit
Counsel General and Brexit Minister